# CYNLLUN MARCIO TGAU

**HAF 2022**

**CYMDEITHASEG – CYDRAN 2**
**C200N20-1**

© WJEC CBAC Ltd.

## RHAGARWEINIAD

Cafodd y cynllun marcio hwn ei ddefnyddio gan CBAC ar gyfer arholiad 2022. Cafodd ei gwblhau ar ôl trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr a oedd yn ymwneud â'r asesu. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl i'r papur gael ei sefyll fel y gellid cyfeirio at yr ystod lawn o atebion ymgeiswyr, a defnyddiwyd sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Nod y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio yn cael ei ddehongli a'i gymhwyso yn yr un ffordd gan yr holl arholwyr.

Y gobaith yw y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir hefyd y gall athrawon, heb y fantais o gymryd rhan yng nghynhadledd yr arholwyr, fod â safbwyntiau gwahanol ynghylch rhai materion ynglŷn â manylion neu ddehongliad.

Ni all CBAC fod yn rhan o unrhyw drafodaeth na gohebiaeth yn ymwneud â'r cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Ltd.

**EDUQAS TGAU CYMDEITHASEG**

**CYNLLUN MARCIO HAF 2022**

## Canllawiau marcio i arholwyr

### Crynodeb o'r amcanion asesu ar gyfer Cydran 2

Mae'r cwestiynau yn y papur hwn yn asesu pob un o'r tri amcan asesu – AA1, AA2 ac AA3. Mae'r amcanion asesu yn canolbwyntio ar:

- y gallu i arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau, cysyniadau, tystiolaeth a dulliau cymdeithasegol (AA1)
- y gallu i gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau, cysyniadau, tystiolaeth a dulliau cymdeithasegol (AA2)
- y gallu i ddadansoddi a gwerthuso damcaniaethau, cysyniadau, tystiolaeth a dulliau cymdeithasegol er mwyn llunio dadleuon, llunio barn a thynnu casgliadau (AA3)

### Strwythur y cynllun marcio

Mewn cwestiynau tariff uchel, mae dwy ran i'r cynllun marcio:

- Grid asesu yn dangos bandiau a marciau cysylltiedig y dylid eu dyrannu i ymatebion sy'n arddangos y nodweddion y mae'r amcan(ion) asesu priodol sy'n berthnasol i'r cwestiwn yn gofyn amdanynt.

- Cynnwys dangosol y gellir ei ddefnyddio i asesu ansawdd yr ymateb penodol. Nid yw'r cynnwys hwn yn rhagnodol ac nid oes disgwyl i ymgeiswyr sôn am yr holl ddeunydd y cyfeiriwyd ato. Dylai arholwyr geisio rhoi marciau am unrhyw dystiolaeth berthnasol bellach a gynigir gan ymgeiswyr.

Yr arholwyr sydd i benderfynu ar y band (lle mae mwy nag un marc mewn band) a'r marc sydd i'w dyfarnu. Mae'r wybodaeth ganlynol yn esbonio sut dylai arholwyr benderfynu ar y band a'r marc i'w dyfarnu.

### Cam 1 – Penderfynu ar y band

Gan ddechrau â'r band isaf, dylai arholwyr edrych ar ateb yr ymgeisydd a chadarnhau p'un a yw'n cyfateb i'r disgrifydd ar gyfer y band hwnnw. Os yw'r ateb yn cyd-fynd â disgrifydd y band isaf, dylai'r arholwyr symud i'r band nesaf ac ailadrodd y broses hon ar gyfer pob band nes bydd y disgrifydd yn cyfateb i'r ateb. Ni ddylai arholwyr geisio tynnu marciau oddi ar ymgeiswyr oherwydd mân hepgoriadau mewn meysydd nad ydynt yn bwysig mewn ateb. I grynhoi:

- Y cam cyntaf i'r arholwr yw defnyddio'r cynnwys dangosol a'r grid asesu i benderfynu ar y band cyffredinol.
- Yr ail gam yw penderfynu pa mor amlwg yw'r nodweddion y disgwylir i'r ateb yn y band hwnnw eu cynnwys.
- Yn drydydd, dyfernir marc am y cwestiwn.

Mae rhai cwestiynau tariff uwch yn targedu sawl amcan asesu. Ar gyfer y cwestiynau hyn, os yw ateb yn haeddu dyfarniad o fandiau gwahanol ar gyfer amcanion asesu gwahanol, dylai arholwyr geisio gwobrwyo'r amrywiol nodweddion a welir yn yr ymateb sy'n berthnasol i'r amcanion asesu penodol.

© WJEC CBAC Ltd.

**Cam 2 – Penderfynu ar y marc**

Wrth safoni (cynhadledd farcio), bydd yr Uwch Arholwr yn rhoi cyngor manwl ar nodweddion pob band marciau. Yna bydd yr arholwyr yn cael enghreifftiau o atebion ym mhob band marciau mae'r Uwch Arholwr wedi dyfarnu marciau amdano. Dylai’r arholwyr farcio'r enghreifftiau a chymharu eu marciau nhw â marciau’r Uwch Arholwr.

Wrth farcio, gall arholwyr ddefnyddio'r enghreifftiau hyn i benderfynu a yw ateb ymgeisydd yn well, yn waeth neu o safon gymharol i'r enghraifft. Atgoffir arholwyr y dylen nhw edrych eto ar yr ateb wrth gymhwyso'r cynllun marcio er mwyn cadarnhau bod y band a'r marc maen nhw'n eu rhoi yn briodol i'r ateb a roddwyd.

Mae cynnwys dangosol i'w weld hefyd ar gyfer cynlluniau marcio seiliedig ar fandiau. Nid yw'r cynnwys dangosol yn gyflawn, a rhaid rhoi marciau am unrhyw bwyntiau dilys eraill. Er mwyn cyrraedd bandiau uchaf y cynllun marcio nid oes angen i ymgeisydd drafod yr holl bwyntiau sy’n cael eu crybwyll yn y cynnwys dangosol, ond rhaid iddo fodloni gofynion y band marciau uchaf. Os nad yw ateb yn haeddu marciau, gan nad yw'n cynnwys unrhyw beth o arwyddocâd o safbwynt y cynllun marcio, neu os nad oes ateb wedi'i roi o gwbl, ni ddylid rhoi marciau.

**Cwestiynau'n cynnwys darnau o destun**

Mae rhai cwestiynau yn cynnwys darnau o destun. Er ei bod hi'n briodol i ymgeiswyr gyfeirio at wybodaeth a ddarperir mewn darnau, ni ddylent gael marciau am ailadrodd darnau o destun yn unig.

© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 1**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1a* | *AA2* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **4** | **4** | | |

Atebwch **bob** cwestiwn.

Defnyddiwch y geiriau yn y blwch isod i lenwi'r bylchau yn y gosodiadau sy'n dilyn.

| | | |
|---|---|---|
| Carlen | amddifadedd | bwch dihangol |
| cynhwysiant cymdeithasol | trosedd coler wen | Murray |

Dylid dyfarnu un marc am bob ateb cywir

(a) cynhwysiant cymdeithasol [1]

(b) Carlen [1]

(c) trosedd coler wen [1]

(ch) bwch dihangol [1]

© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 2(a) a (b)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1b* | *AA2* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **2** | **2** | | |

Edrychwch ar y wybodaeth ganlynol ac atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.

**Swyddi Uchaf Prydain 2014 - 2019**

| | Uwch farnwyr | Swyddogion y lluoedd arfog | Newyddiadurwyr | ASau | Pêl-droedwyr | Enillwyr medal Olympaidd | Swyddi uchaf byd teledu, ffilm a cherddorion |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran a aeth i ysgolion annibynnol 2014 | 71% | 62% | 43% | 33% | 8% | 35% | 44% |
| Canran a aeth i ysgolion annibynnol 2019 | 65% | 49% | 44% | 29% | 5% | 31% | 38% |

*Mae ysgolion annibynnol yn ysgolion preifat lle mae'n rhaid i rieni dalu er mwyn i'w plant fynd iddynt. 7% o'r boblogaeth gyffredinol sy'n mynd i ysgolion annibynnol ym Mhrydain.

Addasiad o Ymddiriedolaeth Sutton – 'Elitist Britain' 2019

**(a)** **Nodwch y swydd sydd â'r canran uchaf a aeth i ysgolion annibynnol yn 2019.** **[1]**

Dyfarnwch un marc am uwch farnwyr neu farnwyr

**(b)** **Nodwch y swydd sydd â'r canran isaf a aeth i ysgolion annibynnol yn 2019.** **[1]**

Dylid dyfarnu un marc am bêl-droediwr

© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 2 (c)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1b* | *AA2* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **4** | | **4** | |

**(c)** **Disgrifiwch ddau batrwm neu duedd sydd i'w gweld yn y tabl, gan gefnogi eich ateb drwy gyfeirio at yr ystadegau yn y tabl.** **[4]**

**Cyfeiriwch at o leiaf dau batrwm neu duedd yn eich ateb**

Mae un marc ar gael am batrwm neu duedd sylfaenol a ddisgrifiwyd. E.e. Mae pobl aeth i ysgolion annibynnol yn fwy tebygol o fod yn y swyddi uchaf.

Mae ail farc ar gael am ychwanegu manylion a chyfeirio at yr ystadegau. E.e. Dim ond 7% o bobl aeth i ysgol annibynnol, ond aeth 65% o uwch farnwyr i ysgolion annibynnol.

Mae dau farc arall ar gael am ail batrwm neu duedd fel uchod. E.e. Mae'r % o'r bobl yn y swyddi uchaf wedi mynd i lawr rhwng 2014 a 2019.

Neu Pêl-droed yw'r unig faes heb unrhyw fantais sylweddol.

© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 3 (a)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1* | *AA21a* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **1** | **1** | | |

**(a) Diffiniwch beth yw ystyr statws. [2]**

Un marc am ddiffiniad sylfaenol. E.e. Ystyr statws yw pa mor bwysig yw person.

Dau farc am esboniad wedi'i ddatblygu gyda rhesymau llawn, e.e. ystyr statws yw beth yw safle person yn yr hierarchaeth. Mae'n cael ei gysylltu'n agos iawn â galwedigaeth neu ddosbarth cymdeithasol y person. Dylid rhoi marciau am wybodaeth sy'n nodi bod modd ennill neu bennu statws.

**Cwestiwn 3 (b)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1* | *AA2 1a* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **4** | | **4** | |

**(b) Esboniwch ddau reswm pam gall pobl gael y swyddi pwysicaf yn y DU. [4]**

Dau farc ar gael am bob rheswm sy'n cael ei esbonio a'i gymhwyso i'r cwestiwn. Os rhoddir mwy na dau reswm, dylid asesu'r ddau orau.

Dylid dyfarnu un marc am esboniad sylfaenol o reswm yr un a marc arall am ddatblygiad neu enghreifftiau. Ar gyfer yr ail farc, dylai'r ymgeiswyr ddatblygu'r ateb ymhellach drwy ddefnyddio enghreifftiau, terminoleg neu ddisgrifiad arbenigol o'r ffordd yr effeithir ar grwpiau.

Gall ymgeiswyr gyfeirio at un o'r pwyntiau isod neu enghreifftiau perthnasol eraill.

Mae'n debygol y bydd ymatebion yn canolbwyntio ar resymau cadarnhaol, er enghraifft bod y bobl fwyaf dawnus a'r rhai sy'n gweithio'n galetaf yn cyrraedd y swyddi pwysicaf. Efallai y byddant hefyd yn cyfeirio at waith, addysg, trosedd, iechyd neu'r cyfryngau. Safbwyntiau Swyddogaethol ynghylch dyraniad rolau, Davis a Moore.

Gall ymatebion eraill gyfeirio at anghydraddoldeb cyfle gan gynnwys rhywiaeth, hiliaeth, oedraniaeth, rhagfarn, gwahaniaethu. Gallen nhw gyfeirio hefyd at ddosbarth cymdeithasol a dadleuon cysylltiedig â hynny sy'n ymwneud ag ysgolion preifat.

Dylid dyfarnu 0 am atebion anghywir neu amherthnasol.

© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 3 (c)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1a ac 1b* | *AA2 1a* | *AA3 1a ac 1b* |
|---|---|---|---|
| **9** | **3** | **3** | **3** |

**(c) Trafodwch wahanol ddamcaniaethau cymdeithasegol am gyfleoedd bywyd a swyddi yn y DU. [9]**

*Yn eich ateb dylech chi drafod o leiaf dwy ddamcaniaeth gymdeithasegol am gyfleoedd bywyd a swyddi yn y DU*

**Disgrifiadau bandiau a dyraniadau marciau**

Sylwer – Ni ellir dyfarnu mwy na Band 2 i ymateb nad yw'n rhoi cynnig ar drafod o leiaf dau reswm.

| | **AA1 1a ac 1b 3 marc** | | **AA2 1a 3 marc** | | **AA3 1a a 1b 3 marc** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **BAND 3** | Ateb cydlynol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a pherthnasol o ddwy ddamcaniaeth gymdeithasegol o leiaf am gyfleoedd bywyd a swyddi yn y DU. Bydd tystiolaeth o iaith gymdeithasegol briodol a chynaliadwy, a gwelir disgrifiad manwl o'r cysyniadau. | **3** | Caiff gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/cysyniadau/tystiolaeth sy'n berthnasol eu cymhwyso a'u defnyddio i esbonio o leiaf dwy ddamcaniaeth gymdeithasegol am gyfleoedd bywyd a swyddi yn y DU yn gywir. Bydd yr esboniad wedi'i ddatblygu'n dda. | **3** | Dadansoddiad a gwerthusiad datblygedig o'r ddwy ddamcaniaeth gymdeithasegol am gyfleoedd bywyd a swyddi yn y DU. Mae rhesymu cyson sy'n gydlynol a pherthnasol wedi'i gyfiawnhau a'i strwythuro'n rhesymegol i ategu barnau a chasgliad sy'n gysylltiedig â manylion y cwestiwn. | **3** |
| **BAND 2** | Mae'r ateb yn weddol gydlynol, gan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth rannol o'r ddamcaniaeth swyddogaethol ac o leiaf dwy ddamcaniaeth gymdeithasegol am gyfleoedd bywyd a swyddi yn y DU, er bod diffyg manylion a rhai gwallau/materion amherthnasol.<br><br>**Neu** dangosir gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a pherthnasol, ond dim ond yr un ddamcaniaeth gymdeithasegol sydd wedi ei hystyried. Bydd tystiolaeth o iaith a chysyniadau cymdeithasegol priodol yn bennaf, ond ni fyddant wedi'u cynnal drwyddi draw. | **2** | Caiff gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/cysyniadau/tystiolaeth eu cymhwyso a'u defnyddio i esbonio dwy ddamcaniaeth gymdeithasegol am gyfleoedd bywyd a swyddi yn y DU.<br>Bydd yr esboniad wedi'i ddatblygu'n rhannol gan y bydd rhai o'r ffactorau hyn yn cael eu hesbonio yn llai manwl nag eraill a bydd rhai gwallau.<br><br>**Neu** caiff gwybodaeth a dealltwriaeth eu cymhwyso a'u defnyddio i roi esboniad cywir am un ddamcaniaeth gymdeithasegol am gyfleoedd bywyd a swyddi yn y DU. | **2** | Dadansoddiad a gwerthusiad rhannol o ddwy ddamcaniaeth gymdeithasegol am gyfleoedd bywyd a swyddi yn y DU.<br><br>**Neu** ddadansoddiad a gwerthusiad datblygedig o un ddamcaniaeth gymdeithasegol am gyfleoedd bywyd a swyddi yn y DU.<br>Ni fydd y rhesymu wedi'i gynnal drwyddi draw ond mae'n gydlynol ac yn berthnasol. Efallai y bydd casgliad yn arwynebol. | **2** |

© WJEC CBAC Ltd.

| | AA1 1a ac 1b 3 marc | | AA2 1a 3 marc | | AA3 1a a 1b 3 marc | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **BAND 1** | Mae'r ateb yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o gyfleoedd bywyd a swyddi yn y DU, ac mae gwallau a diffyg dealltwriaeth yn gallu bod yn nodweddion o hynny. Bydd tystiolaeth brin, os o gwbl, o iaith a chysyniadau cymdeithasegol. | **1** | Bydd y cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth i esbonio damcaniaeth gymdeithasegol am gyfleoedd bywyd a swyddi yn y DU yn gyfyngedig. Bydd unrhyw esboniad heb ei ddatblygu ac yn cynnwys gwallau. | **1** | Dadansoddiad neu werthusiad cyfyngedig yn unig, heb unrhyw farn na chasgliad yn gysylltiedig â manylion y cwestiwn. | **1** |
| | Dylid dyfarnu 0 am atebion anghywir neu amherthnasol | | | | | |

Dylai atebion ddangos y gallu i ddeall dadleuon cymdeithasegol, defnyddio termau ac enghreifftiau cymdeithasegol ac esbonio cysyniadau cymdeithasegol. I ennill y marciau AA3 uchaf, dylai atebion gynnig barn am y syniadau gwahanol a dod i gasgliad.

***Cynnwys dangosol***

Nid yw'r cynnwys yn rhagnodol ac nid oes disgwyl i ymgeiswyr gyfeirio at yr holl ddeunydd a nodir isod. Rhoddir marciau am ddefnyddio tystiolaeth gymdeithasegol gefnogol yn effeithiol.

- Davis a Moore – pennu rolau a pherfformiad effeithiol – gwobrau – mae'r swyddi gorau'n cael eu rhoi i'r bobl hynny sy'n ddawnus ac yn gweithio'n galed. Meritocratiaeth
- Y Dde Newydd – Peter Saunders – mae Prydain yn agos at fod yn feritocratiaeth Swyddi'n mynd i'r bobl mwyaf dawnus. Mewn gwirionedd mae llawer o bobl dosbarth canol yn fwy dawnus.
- Safbwynt Farcsaidd – Mae'r dosbarth llywodraethol yn gwneud yn siŵr bod eu plant nhw'n cael y swyddi pwysicaf. E.e. ASau ac ysgolion preifat.
- Rhywedd – byddai Ffeministiaid yn dadlau bod nenfwd gwydr/patriarchaeth yn gweithredu.
- Hiliaeth – Gall hiliaeth sefydliadol atal lleiafrifoedd ethnig rhag cyrraedd y swyddi pwysicaf.
- Mae deddfwriaeth yn atal gwahaniaethu. Deddf Cydraddoldeb 2010.

Dylid rhoi marciau am gyfeirio'n gywir at gymdeithasegwyr a damcaniaeth lle bo'n berthnasol

Dylid cael trafodaeth ar bwysigrwydd/hygrededd y rhesymau a chasgliad.

Dylid dyfarnu 0 am atebion anghywir neu amherthnasol

**Cwestiwn 4 (a)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1a ac 1b* | *AA2* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **2** | **2** | | |

**(a) Disgrifiwch ystyr patriarchaeth. [2]**

Dylid dyfarnu un marc am ddisgrifiad sylfaenol sy'n awgrymu ei fod yn golygu dominyddiaeth y gwryw ar gymdeithas.

Dylid dyfarnu un marc arall am ddisgrifiad mwy datblygedig neu ddatblygiad sy'n cyfeirio at un o'r pwyntiau isod, neu bwyntiau neu enghreifftiau perthnasol eraill:

- mae'n gallu golygu bod menywod dan anfantais neu wedi'u cyfyngu o ran y rolau maen nhw'n gallu eu gwneud. Dynion sy'n cael y swyddi gorau a'r swyddi mwyaf pwerus.
- dylid rhoi marciau am gyfeirio at rywiaeth, unrhyw enghraifft fanwl gywir o ragfarn a/neu wahaniaethu

Dylid dyfarnu 0 am atebion anghywir neu amherthnasol.

**Cwestiwn 4 (b)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1a ac 1b* | *AA2* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **2** | **2** | | |

**(b) Esboniwch *un* ffordd mae rolau gwrywaidd wedi newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf. [2]**

Dylid dyfarnu un marc am esboniad sylfaenol sy'n awgrymu nad yw'r un ddominyddiaeth gan ddynion erbyn hyn neu fod rolau gwrywol traddodiadol yn llai cyffredin.

Dylid dyfarnu un marc arall am esboniad mwy datblygedig neu ddatblygiad sy'n cyfeirio at un o'r pwyntiau isod, neu bwyntiau neu enghreifftiau perthnasol eraill:

- nid ef bellach yw'r prif enillydd cyflog
- mae'r broses o wneud penderfyniadau'n un fwy cyfartal
- dyn newydd, teulu cymesur,
- nid yw stereoteipiau o ran rywedd gwrywol yn cael eu cysylltu mor agos â gwrywdod traddodiadol.
- Gweithleodd yn fannau mwy benywol.
- Dylid cyfeirio at enghreifftiau o'r cyfryngau, gwaith, addysg, teulu.

Dylid dyfarnu 0 am atebion anghywir neu amherthnasol.

© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 4(c)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1* | *AA2 1a* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **4** | | **4** | |

**(c) Esboniwch *ddwy* ffordd gallai stereoteipiau o rolau rhywedd fod yn niweidiol.** **[4]**

Mae 2 farc ar gael am bob rheswm sy'n cael ei esbonio.

Os rhoddir mwy na dwy ffordd, dylid marcio bob rheswm yn ôl y meini prawf a dyfarnu'r marc am y ddau â'r marciau uchaf.

Dylid dyfarnu un marc am bob ffordd a nodwyd ac un marc am ddatblygiad neu enghraifft. Gall dysgwyr gyfeirio at un o'r pwyntiau isod neu at bwyntiau neu enghreifftiau perthnasol eraill:

- Cynrychioliad yn y cyfryngau – mae stereoteipiau yn annog rhagfarn a gwahaniaethu dylid rhoi marciau am enghreifftiau cywir
- Cynrychioliad o stereoteipiau yn y cyfryngau e.e. mae'n effeithio ar hunanddelwedd unigolion. Mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd bywyd i ddynion a menywod.
- Dyheadau i ddynion a menywod yn gyfyngedig
- Anhapusrwydd
- Gwahaniaethu niweidiol.
- Mae cymdeithasoli'n addysgu pobl i fod yn rhagfarnllyd. E.e. mae lluniau rhywiaethol yn annog amharch tuag at fenywod.

© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 4 (ch)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1a ac 1b* | *AA2 1a* | *AA3 1a ac 1b* |
|---|---|---|---|
| **9** | **3** | **3** | **3** |

**(ch)** **Aseswch a yw gwahaniaethau rhywedd yn parhau i effeithio ar anghydraddoldeb yn y DU.** **[9]**

*Yn eich ateb cofiwch fod angen i chi gyfeirio at dystiolaeth o* ***ddau*** *faes o fywyd o leiaf i ategu eich barn*.

**Disgrifiadau bandiau a dyraniadau marciau**

Sylwer – Ni ellir dyfarnu mwy na Band 2 i ymateb nad yw'n rhoi cynnig ar drafod o leiaf dau safbwynt.

| | **AA1 1a ac 1b 3 marc** | | **AA2 1a 3 marc** | | **AA3 1a a 1b 3 marc** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **BAND 3** | Ateb cydlynol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a pherthnasol o ddau faes gan gyfeirio at enghreifftiau neu dystiolaeth am bwysigrwydd rhywedd sy'n effeithio ar anghydraddoldeb yn y DU.<br>Bydd tystiolaeth o iaith gymdeithasegol briodol a chynaliadwy, a gwelir disgrifiad manwl o'r cysyniadau. | **3** | Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/ cysyniadau/tystiolaeth perthnasol ar bwysigrwydd rhywedd sy'n effeithio ar anghydraddoldeb, gan gyflwyno o leiaf dau faes o fywyd gwahanol yn y DU sy'n cael ei gymhwyso a'i ddefnyddio i esbonio safbwyntiau ar anghydraddoldeb. Bydd yr esboniad wedi'i ddatblygu'n dda. | **3** | Dadansoddiad a gwerthusiad datblygedig o'r hyn mae'r dystiolaeth/enghreifftiau o ddau faes o fywyd o leiaf a phwysigrwydd rhywedd sy'n arwain at anghydraddoldeb. Mae rhesymu cyson sy'n gydlynol a pherthnasol wedi'i gyfiawnhau a'i strwythuro'n rhesymegol i ategu barnau a chasgliad sy'n gysylltiedig â manylion y cwestiwn. | **3** |
| **BAND 2** | Mae rhywfaint o gydlyniad i'r ateb, gan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth rannol o bwysigrwydd rhywedd sy'n effeithio ar anghydraddoldeb yn y DU, gan gyfeirio at enghreifftiau neu dystiolaeth o ddau faes o fywyd o leiaf, er bod diffyg manylion a rhai gwallau/materion amherthnasol.<br><br>**Neu** caiff gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a pherthnasol o bwysigrwydd rhywedd sy'n effeithio ar anghydraddoldeb yn y DU, gyda chyfeiriad at enghreifftiau neu dystiolaeth eu dangos, ond dim ond ystyriaeth o un maes o fywyd sydd yma.<br>Bydd tystiolaeth o iaith a chysyniadau cymdeithasegol priodol yn bennaf, ni fyddant wedi'u cynnal drwyddi draw. | **2** | Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/ cysyniadau/tystiolaeth perthnasol ar bwysigrwydd rhywedd sy'n effeithio ar anghydraddoldeb, gyda chyfeiriad at ddau faes o fywyd o leiaf.<br>Bydd yr esboniad wedi'i ddatblygu'n rhannol gan y bydd rhai o'r ffactorau hyn yn cael eu hesbonio yn llai manwl nag eraill a bydd rhai gwallau.<br><br>**Neu** caiff gwybodaeth a dealltwriaeth o un maes o fywyd eu cymhwyso a'u defnyddio i esbonio safbwyntiau rhywedd ac anghydraddoldeb.<br>Bydd yr esboniad hwn wedi'i ddatblygu'n dda. | **2** | Dadansoddiad a gwerthusiad rhannol o'r hyn mae'r dystiolaeth / enghreifftiau o ddau faes o fywyd o leiaf a phwysigrwydd rhywedd sy'n arwain at anghydraddoldeb.<br><br>**Neu** ddadansoddiad a gwerthusiad datblygedig o'r hyn mae'r dystiolaeth / enghreifftiau o un maes o fywyd yn unig yn ei ddangos.<br>Ni fydd y rhesymu wedi'i gynnal drwyddi draw ond mae'n gydlynol ac yn berthnasol. Efallai y bydd casgliad yn arwynebol. | **2** |

© WJEC CBAC Ltd.

| | AA1 1a ac 1b 3 marc | | AA2 1a 3 marc | | AA3 1a a 1b 3 marc | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **BAND 1** | Mae'r ateb yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol yn unig o bwysigrwydd rhywedd sy'n effeithio ar anghydraddoldeb yn y DU, ac mae gwallau a diffyg dealltwriaeth yn gallu bod yn nodweddion o hynny. Bydd tystiolaeth brin, os o gwbl, o iaith a chysyniadau cymdeithasegol. | **1** | Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth i esbonio pwysigrwydd rhywedd sy'n effeithio ar anghydraddoldeb gan gyflwyno un maes o fywyd o leiaf. Bydd unrhyw esboniad heb ei ddatblygu ac yn cynnwys gwallau. | **1** | Dadansoddiad neu werthusiad cyfyngedig yn unig, heb unrhyw farn na chasgliad yn gysylltiedig â manylion y cwestiwn. | **1** |
| | Dylid dyfarnu 0 am atebion anghywir neu amherthnasol | | | | | |

Dylai atebion ddangos y gallu i ddeall dadleuon cymdeithasegol, defnyddio termau ac enghreifftiau cymdeithasegol ac esbonio cysyniadau cymdeithasegol. I ennill y marciau AA3 uchaf, dylai atebion gynnig barn am y syniadau gwahanol a dod i gasgliad.

***Cynnwys dangosol***

Nid yw'r cynnwys yn rhagnodol ac nid oes disgwyl i ymgeiswyr gyfeirio at yr holl ddeunydd a nodir isod. Rhoddir marciau am ddefnyddio tystiolaeth gymdeithasegol gefnogol yn effeithiol.

Mae'r ymatebion yn debygol o ganolbwyntio ar feysydd fel stereoteipio, rhagfarn, gwahaniaethu, cynrychioliad yn y cyfryngau, nenfwd gwydr. Gall ymatebion gyfeirio hefyd at addysg, gwaith, teulu, cyfoeth ac incwm, y cyfryngau, trosedd.

Gall atebion cryf gyfeirio at fathau eraill o wahaniaeth, er enghraifft dosbarth neu ethnigrwydd.

- Rhagfarn, stereoteipio, labelu
- Cyfleoedd bywyd
- Rhywiaeth
- Gwahaniaethu,
- Diffyg modelau rôl,
- Cynrychioliad yn y cyfryngau,
- Allgáu cymdeithasol, tlodi a chynhwysiant cymdeithasol
- Pwysigrwydd cymharol ffactorau eraill – Dosbarth, Ethnigrwydd, Anabledd ac ati
- Ffeministiaeth gan gynnwys gwaith Sylvia Walby, Ann Oakley, Baich Deuol, Shifft Driphlyg Duncan a Marsden, Nenfwd Gwydr. Deddfwriaeth
- dylid rhoi marciau am gyfeirio'n gywir at gymdeithasegwyr a damcaniaeth lle bo'n berthnasol
- dylai dysgwyr drafod pa mor arwyddocaol fu'r newidiadau yn y meysydd maen nhw’n edrych arnynt.

Dylid dyfarnu 0 am atebion anghywir neu amherthnasol

© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 5 (a)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1* | *AA2 1a* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **4** | **4** | | |

**(a) Esboniwch, gan roi enghreifftiau, beth yw ystyr dosbarth cymdeithasol. [4]**

Un marc yr un ar gael am esbonio safbwyntiau am ddosbarth cymdeithasol yn sylfaenol.

Er enghraifft.

Y swydd rydych chi'n ei gwneud sy'n penderfynu dosbarth cymdeithasol.

Byddai ail farc yn cael ei ddyfarnu am ddatblygu'r ateb ymhellach.

Yn ôl Marx, mae dau ddosbarth mewn cymdeithas a marc arall am ddatblygiad neu enghreifftiau. E.e. Dywedodd Marx mai'r bourgeoisie oedd y dosbarth cymdeithasol uchaf gan eu bod nhw'n berchen ar y modd cynhyrchu, y proletariat oedd yr enw ar y gweithwyr. Mae'r prif raniad rhwng gweithwyr a pherchnogion.

Dau farc pellach am gynnig ail safbwynt fel uchod.
E.e. Safbwynt Weber am ddosbarth, statws a phlaid.
Dylid cyfeirio at Cofrestrydd Cyffredinol neu ddosbarthiadau swyddogol eraill o ddosbarth cymdeithasol
Safbwynt mwy cymhleth am system dau ddosbarth a/neu isddosbarth.

Dylid dyfarnu 0 am atebion anghywir neu amherthnasol.

**Cwestiwn 5 (b)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1a ac 1b* | *AA2* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **4** | | **4** | |

**(b) Disgrifiwch *ddwy* ffordd gall pobl gael eu hecsbloetio**. **[4]**

Dylid dyfarnu un marc am esboniad sylfaenol e.e. mae pobl yn defnyddio neu'n cymryd mantais ar bobl eraill.

Dylid dyfarnu 2 farc arall am ddatblygiad sy'n cyfeirio at o leiaf un o'r pwyntiau isod neu enghreifftiau perthnasol eraill yn fanwl, neu o leiaf dau bwynt yn llai manwl.

Dylid dyfarnu marc pellach am ddefnyddio iaith gymdeithasegol berthnasol.

Mae'n bosibl y bydd menywod yn derbyn llai o gyflog na dynion am wneud yr un swydd. Y Ddeddf Cyflogau Cyfartal ddim yn llwyddiannus.
Contractau dim oriau, economi Gig. Yr isafswm cyflog ddim yn cael ei dalu iddyn nhw
Ecsbloetio grwpiau mewnfudwyr
Esbloetio gweithwyr mewn gwledydd sy'n datblygu, Caethwasiaeth Plant.

Dylid dyfarnu 0 am atebion anghywir neu amherthnasol.

© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 5 (c)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1a ac 1b* | *AA2 1a* | *AA3 1a ac 1b* |
|---|---|---|---|
| **9** | **3** | **3** | **3** |

**(c)** **'Mae angen i bobl sy'n byw mewn tlodi newid y ffordd maen nhw'n byw er mwyn gwella eu bywydau'. Ydych chi'n cytuno â'r safbwynt hwn**? **[9]**

*Yn eich ateb dylech chi gyfeirio at dystiolaeth o ddau safbwynt cymdeithasegol o leiaf i gefnogi eich barn.*

**Disgrifiadau bandiau a dyraniadau marciau**

Sylwer – Ni ellir dyfarnu mwy na Band 2 i ymateb nad yw'n rhoi cynnig ar drafod o leiaf dau reswm.

| | **AA1 1a ac 1b 3 marc** | | **AA2 1a 3 marc** | | **AA3 1a a 1b 3 marc** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **BAND 3** | Ateb cydlynol yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a pherthnasol am ddau safbwynt o leiaf ar bobl sy'n byw mewn tlodi.<br><br>Bydd tystiolaeth o iaith gymdeithasegol briodol a chynaliadwy, a gwelir disgrifiad manwl o'r cysyniadau. | **3** | Caiff gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/cysyniadau/tystiolaeth eu cymhwyso a'u defnyddio i esbonio dau safbwynt ar dlodi yn gywir. Bydd yr esboniad wedi'i ddatblygu'n dda. | **3** | Dadansoddiad a gwerthusiad datblygedig o ddau safbwynt o leiaf ar bobl sy'n byw mewn tlodi mewn cymdeithas. Mae rhesymu cyson sy'n gydlynol a pherthnasol wedi'i gyfiawnhau a'i strwythuro'n rhesymegol i ategu barnau a chasgliad sy'n gysylltiedig â manylion y cwestiwn. | **3** |
| **BAND 2** | Mae rhywfaint o gydlyniad i'r ateb, gan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth rannol o ddau safbwynt o leiaf ar bobl sy'n byw mewn tlodi, er bod diffyg manylion a rhai gwallau/materion amherthnasol.<br><br>**Neu** dangosir gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a pherthnasol, ond un safbwynt sydd wedi ei ystyried. Bydd tystiolaeth o iaith a chysyniadau cymdeithasegol priodol yn bennaf, ond ni fyddant wedi'u cynnal drwyddi draw. | **2** | Caiff gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/cysyniadau/tystiolaeth eu cymhwyso a'u defnyddio i esbonio dau safbwynt ar dlodi mewn cymdeithas. Bydd yr esboniad wedi'i ddatblygu'n rhannol gan y bydd rhai o'r ffactorau hyn yn cael eu hesbonio yn llai manwl nag eraill a bydd rhai gwallau.<br><br>**Neu** caiff gwybodaeth a dealltwriaeth eu cymhwyso a'u defnyddio i esbonio'n gywir un safbwynt ar gyfoeth anghyfartal mewn cymdeithas. | **2** | Dadansoddiad a gwerthusiad rhannol o'r bobl hynny sy'n byw mewn tlodi yn y gymdeithas.<br>**Neu** ddadansoddiad a gwerthusiad datblygedig o un safbwynt ar bobl yn byw mewn tlodi mewn cymdeithas.<br>Ni fydd y rhesymu wedi'i gynnal drwyddi draw ond mae'n gydlynol ac yn berthnasol. Efallai y bydd casgliad yn arwynebol. | **2** |

| | AA1 1a ac 1b 3 marc | | AA2 1a 3 marc | | AA3 1a a 1b 3 marc | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **BAND 1** | Mae'r ateb yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol yn unig o'r gwahanol safbwyntiau ar gyfoeth anghyfartal mewn cymdeithas, ac mae gwallau a diffyg dealltwriaeth yn gallu bod yn nodweddion o hynny. Bydd tystiolaeth brin, os o gwbl, o iaith a chysyniadau cymdeithasegol. | **1** | Bydd y cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth i esbonio safbwyntiau gwahanol am ddosbarth cymdeithasol ac anghydraddoldeb mewn cymdeithas safbwyntiau am dlodi yn gyfyngedig. Bydd unrhyw esboniad heb ei ddatblygu ac yn cynnwys gwallau. | **1** | Dadansoddiad neu werthusiad cyfyngedig yn unig, heb unrhyw farn na chasgliad yn gysylltiedig â manylion y cwestiwn. | **1** |
| | Dylid dyfarnu 0 am atebion anghywir neu amherthnasol | | | | | |

Dylai atebion ddangos y gallu i ddeall dadleuon cymdeithasegol, defnyddio termau ac enghreifftiau cymdeithasegol ac esbonio cysyniadau cymdeithasegol. I ennill y marciau AA3 uchaf, dylai atebion gynnig barn am y syniadau gwahanol a dod i gasgliad.

***Cynnwys dangosol***

Nid yw'r cynnwys yn rhagnodol ac nid oes disgwyl i ymgeiswyr gyfeirio at yr holl ddeunydd a nodir isod. Rhoddir marciau am ddefnyddio tystiolaeth gymdeithasegol gefnogol yn effeithiol.

- Safbwynt Swyddogaethol – mae rôl bositif i dlodi mewn cymdeithas. Mae'n cymell pobl eraill i beidio â mynd i dlodi ac i weithio'n galed.
- Y Dde Newydd – Y diwylliant o dlodi yw'r broblem, Charles Murray, Marsland,
- Diwylliant o ddibyniaeth – dibyniaeth ar les.
- Safbwynt Marcsaidd – Cyfalafiaeth yw gwir achos tlodi. Bydd unrhyw system sy'n caniatáu i'r bourgeoisie esbloetio'r tlawd bob amser yn arwain at dlodi i rai pobl.
- Mae pobl sydd mewn gwaith erbyn hyn yn byw mewn tlodi, contractau dim oriau, economi gig.
- Ystyr rhagfarn a gwahaniaethu yw bod rhai grwpiau'n mynd i fod yn dlawd bob amser. Mae mwy o risg i leiafrifoedd ethnig a menywod fod yn dlawd yn yr un modd â'r henoed a phobl ag anableddau.

Dylid rhoi marciau am gyfeirio'n gywir at waith, addysg, iechyd, trosedd
Dylid rhoi marciau am gyfeirio'n gywir at gymdeithasegwyr a damcaniaeth lle bo'n berthnasol

Dylid cael trafodaeth ar bwysigrwydd/hygrededd y rhesymau a chasgliad.

Dylid dyfarnu 0 am atebion anghywir neu amherthnasol.

© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 6 (a)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1a ac 1b* | *AA2* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **2** | **2** | | |

**(a) Disgrifiwch ystyr y term gwyredd**. **[2]**

Dylid dyfarnu un marc am ddisgrifiad sylfaenol o wyredd, fel ymddygiad sy'n torri normau cymdeithasol.

Dylid dyfarnu marc pellach am ddatblygiad sy'n cyfeirio at un o'r pwyntiau isod neu bwyntiau perthnasol eraill:

- Ymddygiad yw gwyredd sy'n torri normau cymdeithasol ac fel arfer mae'n cael sancsiwn gan bobl eraill. E.e. Gall gwthio i mewn i'r ciw arwain at bobl yn gwneud sylwadau neu'n gwgu.
- Nid yw gwyredd yn erbyn y gyfraith o reidrwydd ac efallai nad yw'n drosedd. Mae rhai gweithredoedd gwyrdröedig yn droseddol hefyd e.e. dwyn o siop.

Dylid dyfarnu 0 am atebion anghywir neu amherthnasol.

© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 6 (b)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1a ac 1b* | *AA2* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **5** | **5** | | |

**(b)** **Amlinellwch resymau pam mae'r hyn sy'n cael ei ystyried yn ymddygiad gwyrdröedig yn newid mewn cymdeithas.** **[5]**

**Disgrifiadau bandiau a dyraniadau marciau**

| | **AA1 5 marc** | |
|---|---|---|
| **BAND 3** | Ateb cydlynol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a pherthnasol o'r rhesymau pam mae'r hyn sy'n cael ei ystyried yn ymddygiad gwyrdröedig yn gallu newid mewn cymdeithas. Bydd tystiolaeth o iaith gymdeithasegol briodol a chynaliadwy, a gwelir disgrifiad manwl o'r cysyniadau. | **4-5** |
| **BAND 2** | Mae rhywfaint o gydlyniad i'r ateb, mae'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth rannol o resymau pam mae'r hyn sy'n cael ei ystyried yn ymddygiad gwyrdröedig yn gallu newid mewn cymdeithas, er bod rhai gwallau/materion amherthnasol. Bydd tystiolaeth o iaith a chysyniadau cymdeithasegol priodol yn bennaf, ni fyddant wedi'u cynnal drwyddi draw. | **2-3** |
| **BAND 1** | Mae'r ateb yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol yn unig o'r rhesymau pam y gall yr hyn sy'n cael ei ystyried yn wyredd newid mewn cymdeithas, ac mae rhai gwallau a diffyg dealltwriaeth yn gallu bod yn nodweddion o hynny. Bydd tystiolaeth brin, os o gwbl, o iaith a chysyniadau cymdeithasegol. | **1** |
| | Dylid dyfarnu 0 am atebion anghywir neu amherthnasol | |

***Cynnwys dangosol***

Nid yw'r cynnwys yn rhagnodol ac nid oes disgwyl i ymgeiswyr gyfeirio at yr holl ddeunydd a nodir isod. Dyma rai o'r materion i'w hystyried yn y disgrifiad:

- Mae normau cymdeithasol yn newid dros amser
- Anomie
- Newidiadau cymdeithasegol – Cyfryngau, addysg
- Technoleg newydd
- Deddfwriaeth – deddfau newydd.
- Mae grwpiau mewn cymdeithas yn ceisio newid safbwyntiau pobl e.e. LHDT, protestwyr amgylcheddol.
- dylid rhoi marciau am gyfeirio at enghreifftiau perthnasol

© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 6 (c)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1a* | *AA2 1a* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **8** | **4** | **4** | |

**(c) Esboniwch sut mae oedran a throsedd yn gysylltiedig.**

**Dylech chi archwilio o leiaf dwy ffordd bosibl yn eich ymateb. [8]**

**Disgrifiadau bandiau a dyraniadau marciau**

Sylwer – Ni ellir dyfarnu mwy na Band 2 i ymateb nad yw'n rhoi cynnig ar archwilio o leiaf dau reswm.

| | **AA1 1a ac 1b 4 marc** | | **AA2 1a 4 marc** | |
|---|---|---|---|---|
| **BAND 4** | Ateb cydlynol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a pherthnasol o sut mae oedran a throsedd yn gysylltiedig. Bydd tystiolaeth o iaith gymdeithasegol briodol a chynaliadwy, a gwelir disgrifiad manwl o'r cysyniadau. | **4** | Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/cysyniadau/tystiolaeth berthnasol am ddau reswm wedi'u cymhwyso a'u defnyddio i esbonio pam mae oedran a throsedd yn gysylltiedig yn gywir ac yn fanwl. Bydd yr esboniad wedi'i ddatblygu'n llawn. | **4** |
| **BAND 3** | Ateb cydlynol yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a pherthnasol yn bennaf o sut mae oedran a throsedd yn gysylltiedig, er bydd un rheswm yn cael ei ddisgrifio yn llai manwl na'r llall. Bydd tystiolaeth o iaith a chysyniadau cymdeithasegol priodol yn bennaf, ond ni fyddant wedi'u cynnal drwyddi draw. | **3** | Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/cysyniadau/tystiolaeth berthnasol am ddau reswm wedi'u cymhwyso a'u defnyddio i esbonio'n gywir sut mae oedran a throsedd yn gysylltiedig. Bydd yr esboniad wedi'i ddatblygu'n rhannol a bydd un o'r rhesymau hyn wedi'i esbonio yn llai manwl na'r llall. | **3** |
| **BAND 2** | Mae rhywfaint o gydlyniad i'r ateb, gan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth rannol o sut mae oedran a throsedd yn gysylltiedig er bod rhai gwallau/materion amherthnasol a diffyg datblygiad a manylion, neu bydd gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a pherthnasol i'w gweld ond dim ond un rheswm sydd wedi'i roi o ran sut mae oedran a throsedd yn gysylltiedig. Bydd tystiolaeth gyfyngedig o iaith gymdeithasegol a chysyniadau sydd yn briodol, heb fawr o fanylion. | **2** | Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/cysyniadau/tystiolaeth berthnasol am ddau reswm wedi'u cymhwyso a'u defnyddio i esbonio pam mae oedran a throsedd yn gysylltiedig, ond bydd ychydig iawn o ddatblygiad a rhai gwallau, **neu** un rheswm yn unig sydd wedi'i gymhwyso a'i ddefnyddio i esbonio yn gywir ac yn fanwl. | **2** |
| **BAND 1** | Mae'r ateb yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol yn unig o reswm (rhesymau) o ran sut mae oedran a throsedd yn gysylltiedig. Ychydig iawn o dystiolaeth o iaith gymdeithasegol a chysyniadau sydd yna, os o gwbl. | **1** | Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth i esbonio sut mae oedran a throsedd yn gysylltiedig. Bydd unrhyw esboniad heb ei ddatblygu ac yn cynnwys gwallau. | **1** |
| | Dylid dyfarnu 0 am atebion anghywir neu amherthnasol | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

***Cynnwys dangosol***

Nid yw'r cynnwys yn rhagnodol ac nid oes disgwyl i ymgeiswyr gyfeirio at yr holl ddeunydd a nodir isod. Dyma rai o’r materion i’w hystyried yn yr esboniad:

- Patrymau sy'n ymwneud ag oedran a throsedd. E.e. Yr ieuenctid a'r henoed.
- Y Gromlin Drosedd Oedran – patrymau troseddu nodweddiadol yn ôl oedran
- Stereoteipio, rhagfarn a gwahaniaethu
- Cythreuliaid y Werin a Phanig moesol am droseddau ieuenctid
- Patrymau erledigaeth
- Gwybodaeth am drosedd ac oedran cyfrifoldeb am drosedd
  Astudiaethau achos, e.e. Jamie Bulger

© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 6(ch)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1 1a ac 1b* | *AA2 1a* | *AA3 1a ac 1b* |
|---|---|---|---|
| **15** | **4** | **3** | **8** |

**(ch)** **Trafodwch a yw isddiwylliannau a throsedd yn gysylltiedig.** **[15]**

*Yn eich ateb cofiwch fod angen i chi gyfeirio at syniadau a damcaniaethau cymdeithasegol gwahanol ar isddiwylliannau a throsedd i ategu eich barn.*

**Disgrifiadau bandiau a dyraniadau marciau**

| | **AA1 1a ac 1b 4 marc** | | **AA2 1a 3 marc** | | **AA3 1a ac 1b 8 marc** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **BAND 4** | Ateb cydlynol yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a pherthnasol o amrediad o ffactorau'n ymwneud â safbwyntiau cymdeithasegol ar isddiwylliannau a throsedd. Bydd tystiolaeth o iaith gymdeithasegol briodol a chynaliadwy, a gwelir disgrifiad manwl o'r cysyniadau. | **4** | Nid oes unrhyw farciau Band 4 ar gyfer yr amcan asesu hwn. Dyfernir 3 marc fel yn achos Band 3. | | Dadansoddiad a gwerthusiad datblygedig ynghylch a yw safbwyntiau cymdeithasegol yn esboniadau defnyddiol o isddiwylliannau a throsedd. Mae rhesymu cyson sy'n gydlynol, perthnasol, wedi'i brofi a'i strwythuro'n rhesymegol i ategu barn a chasgliad yn gysylltiedig â manylion y cwestiwn. | **7-8** |
| **BAND 3** | Ateb cydlynol yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a pherthnasol yn bennaf o ffactorau yn ymwneud â safbwyntiau cymdeithasegol ar isddiwylliannau a throsedd, er y bydd rhai ffactorau'n cael eu disgrifio yn llai manwl nag eraill. Bydd tystiolaeth o iaith a chysyniadau cymdeithasegol priodol yn bennaf, ni fyddant wedi'u cynnal drwyddi draw. | **3** | Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/ cysyniadau/tystiolaeth berthnasol wedi'u cymhwyso a'u defnyddio i esbonio safbwyntiau cymdeithasegol ar isddiwylliannau a throsedd. Bydd yr esboniad wedi'i ddatblygu'n dda. | **3** | Dadansoddiad a gwerthusiad da ynghylch a yw safbwyntiau cymdeithasegol yn esboniadau defnyddiol o isddiwylliannaua throsedd. Efallai na fydd y rhesymu wedi'i gynnal drwyddi draw ond mae'n gydlynol ac yn berthnasol i ategu barn a chasgliad yn gysylltiedig â manylion y cwestiwn. | **5-6** |
| **BAND 2** | Mae rhywfaint o gydlyniad i'r ateb, gan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth rannol o isddiwylliannau a throsedd, er bydd diffyg manylion a gwallau/materion amherthnasol. Bydd tystiolaeth gyfyngedig o iaith a chysyniadau cymdeithasegol priodol. | **2** | Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/ cysyniadau/tystiolaeth berthnasol wedi'u cymhwyso a'u defnyddio i esbonio safbwyntiau cymdeithasegol ar isddiwylliannau a throsedd. Bydd yr esboniad wedi'i ddatblygu'n rhannol gan y bydd rhai o'r ffactorau hyn yn cael eu hesbonio yn llai manwl na'r lleill a bydd gwallau. | **2** | Dadansoddiad a gwerthusiad rhannol o safbwyntiau cymdeithasegol ar isddiwylliannau a throsedd. Bydd unrhyw farn neu gasgliad yn arwynebol. | **3-4** |

© WJEC CBAC Ltd.

| | AA1 1a ac 1b 4 marc | | AA2 1a 3 marc | | AA3 1a ac 1b 8 marc | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **BAND 1** | Mae'r ateb yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol yn unig o gywirdeb safbwyntiau cymdeithasegol ar isddiwylliannau a throsedd. Bydd tystiolaeth brin, os o gwbl, o iaith a chysyniadau cymdeithasegol. | **1** | Bydd y cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth i esbonio cywirdeb safbwyntiau cymdeithasegol ar isddiwylliannau a throsedd yn gyfyngedig. Bydd unrhyw esboniad heb ei ddatblygu ac yn cynnwys gwallau. | **1** | Dadansoddiad neu werthusiad cyfyngedig yn unig, heb unrhyw farn na chasgliad yn gysylltiedig â manylion y cwestiwn. | **1-2** |
| | Dylid dyfarnu 0 am atebion anghywir neu amherthnasol | | | | | |

Cwestiwn ymateb estynedig yw hwn, lle disgwylir i ymgeiswyr gyfuno meysydd gwahanol o wybodaeth, sgiliau a/neu ddealltwriaeth ar draws y cynnwys perthnasol o'r fanyleb. Dylent lunio a datblygu rhesymu cyson sy'n gydlynol, perthnasol, wedi'i brofi a'i strwythuro'n rhesymegol.

Dylai atebion ddangos y gallu i ddeall dadleuon cymdeithasegol, defnyddio termau ac enghreifftiau cymdeithasegol ac esbonio cysyniadau cymdeithasegol. I ennill y marciau AA3 uchaf, dylai atebion gynnig barn am y syniadau gwahanol a dod i gasgliad.

***Cynnwys dangosol***

Nid yw'r cynnwys yn rhagnodol ac nid oes disgwyl i ymgeiswyr gyfeirio at yr holl ddeunydd a nodir isod. Rhoddir marciau am ddefnyddio tystiolaeth gymdeithasegol gefnogol yn effeithiol. Dyma rai o’r materion i’w hystyried yn y drafodaeth:

- Rhwystredigaeth Statws
- Cohen
- Walter Miller – Materion ffocal
- Gangiau
- Argyfwng gwrywdod
- Charles Murray – Y Dde Newydd – diwylliant o dlodi
- Cromlin Drosedd Oedran
- Isddiwylliannau
- Safbwyntiau eraill ar achosion trosedd, gan gynnwys Marcsaeth
- dylid rhoi credyd am gyfeirio at gymdeithasegwyr a damcaniaeth berthnasol lle bo'n berthnasol e.e. Y Dde Newydd, Marcsaeth
- dylai'r ddadl gynnwys rhyw fath o gasgliad

© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 7 (a)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1* | *AA2 1b* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **1** | | **1** | |

**Mae gofyn i chi gynnal ymchwil cymdeithasegol i ymchwilio i farn plant ysgol am fepio.**

**(a) Nodwch *un* dull ymchwil fyddai'n addas ar gyfer eich ymchwil i farn plant ysgol am fepio. [1]**

Dylid dyfarnu un marc am ddewis dull priodol fel:
- Cyfweliadau strwythuredig neu anstrwythuredig
- Holiaduron
- Dim marciau am arsylwi

Dylid dyfarnu 0 am atebion anghywir neu amherthnasol.

**Cwestiwn 7 (b)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1* | *AA2 1b* | *AA3* |
|---|---|---|---|
| **2** | | **2** | |

**(b) Disgrifiwch *ddau* reswm pam mae'r dull rydych chi wedi ei ddewis yn addas ar gyfer ymchwil i farn plant ysgol am fepio. [4]**

Mae 2 farc ar gael am gymhwysiad ac esboniad cywir o resymau addas.

Os rhoddir mwy nag un rheswm, dylid marcio pob un yn unol â'r meini prawf a dyfarnu'r marc am yr un â'r marciau uchaf.

Dylai'r ymatebion ganolbwyntio ar addasrwydd y dull ar gyfer y project ymchwil hwn i dlodi.

2 farc arall am ail reswm.

- Cyfweliadau anstrwythuredig i adeiladu hyder a chydberthynas er mwyn cael ymateb mwy dilys. Efallai bydd plant ysgol yn bryderus y byddan nhw'n mynd i drwbl os ydyn nhw wedi rhoi cynnig ar fepio.
- Drwy gynnal cyfweliadau anstrwythuredig bydd yr ymchwilydd yn gallu ychwanegu cwestiynau nad ydyn nhw wedi meddwl amdanyn nhw. Efallai na fydd ymchwilwyr yn gwybod yn awtomatig beth yw'r cwestiynau cywir i'w gofyn wrth gyfweld plant ysgol sy'n llawer ifancach na nhw.
- Gallai holiaduron fod yn ddienw, felly os ydy unrhyw un yn poeni am fynd i drwbl maen nhw'n gallu bod yn fwy onest wrth ateb.

© WJEC CBAC Ltd.

**Cwestiwn 7 (c)**

| *Marciau i'w dyrannu:* | *AA1* | *AA2 1b* | *AA3 1a ac 1b* |
|---|---|---|---|
| **6** | | **3** | **3** |

**(c)** **Esboniwch a gwerthuswch y problemau gallwch chi eu hwynebu wrth ymchwilio i farn plant ysgol am fepio.** **[6]**

**Disgrifiadau bandiau a dyraniadau marciau**

| | **AA2 1b 3 marc** | | **AA3 1a a 1b 3 marc** | |
|---|---|---|---|---|
| **BAND 3** | Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/cysyniadau/tystiolaeth/dulliau perthnasol wedi'u cymhwyso a'u defnyddio i esbonio'n gywir ac yn fanwl y problemau sy'n gallu codi wrth ymchwilio i farn plant ysgol am fepio.<br>Bydd yr esboniad wedi'i ddatblygu'n llawn. | **3** | Dadansoddiad a gwerthusiad datblygedig i esbonio'n gywir ac yn fanwl y problemau sy'n gallu codi wrth ymchwilio i farn plant ysgol am fepio.<br>Mae rhesymu cyson sy'n gydlynol, perthnasol, wedi'i brofi a'i strwythuro'n rhesymegol i ategu barn a chasgliad yn gysylltiedig â manylion y cwestiwn. | **3** |
| **BAND 2** | Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau/cysyniadau/tystiolaeth/dulliau perthnasol wedi'u cymhwyso a'u defnyddio i esbonio'n gywir ac yn fanwl y problemau sy'n gallu codi wrth ymchwilio i farn plant ysgol am fepio.<br>Bydd rhywfaint o ddatblygiad yn yr esboniad ond bydd rhai gwallau | **2** | Dadansoddiad a gwerthusiad rhannol i esbonio'n gywir ac yn fanwl y problemau sy'n gallu codi wrth ymchwilio i farn plant ysgol am fepio.<br>Efallai na fydd y rhesymu wedi'i gynnal drwyddi draw ond mae'n gydlynol ac yn berthnasol i ategu barn a chasgliad yn gysylltiedig â manylion y cwestiwn. | **2** |
| **BAND 1** | Bydd y cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth i esbonio'n gywir ac yn fanwl y problemau sy'n ymwneud â gwneud ymchwil i farn plant ysgol am fepio yn gyfyngedig.<br>Bydd unrhyw esboniad heb ei ddatblygu ac yn cynnwys gwallau. | **1** | Dadansoddiad neu werthusiad cyfyngedig yn unig, heb unrhyw farn na chasgliad yn gysylltiedig â manylion y cwestiwn. | **1** |
| | Dylid dyfarnu 0 am atebion anghywir neu amherthnasol | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

**Cynnwys dangosol**

Nid yw'r cynnwys yn rhagnodol ac nid oes disgwyl i ymgeiswyr gyfeirio at yr holl ddeunydd a nodir isod. Dyma rai o’r materion i’w hystyried:

- Sampl – mynediad, caniatâd
- Costau, cyllid.
- Materion moesegol
- Cyfreithlondeb
- Cyfrinachedd – efallai eu bod nhw'n defnyddio sylweddau eraill.
- Anhysbysrwydd
- Niwed i gyfranogwyr – Gall annog fepio ac mae'n bosibl bod gan hynny effeithiau niweidiol anhysbys
- Cydsyniad gwybodus
- Ffyrdd o oresgyn materion moesegol gan gynnwys adrodd yn ôl.
- Ffyrdd o oresgyn problemau e.e. Cyllid gan elusen iechyd.

Dylid dyfarnu 0 am atebion anghywir neu amherthnasol.



© WJEC CBAC Ltd.